# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg

## Nodiadau cyfarfod 13 Mawrth 2018

## Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Ystafell A, 12.15pm i 1.15pm

### Nodiadau'r Cyfarfod ar: Mesurau newydd ym maes gofal llygaid sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

**Yn bresennol:**

**Cadeirydd:** Dr Dai Lloyd, Aelod Cynulliad

**Cyflwynwyr:**
Fiona Jenkins: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd Grŵp Llywio Gofal Llygaid Llywodraeth Cymru
Mike Austin: Offthalmolegydd Ymgynghorol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chadeirydd Bwrdd Gofal Offthalmig Wedi'i Gynllunio Cymru
David O'Sullivan: Prif Gynghorydd Optometrig, Llywodraeth Cymru
Graham Shortland: Cyfarwyddwr Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cadeirydd Gweithgor mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

**Yn bresennol:**
Darren Price, Staff Cymorth Dr Dai Lloyd
Nick Ramsay, Aelod Cynulliad
Olivia Shorrocks, Llywodraeth Cymru
David Browne, Llywodraeth Cymru
John Jenkins, Cyngor Iechyd Cymuned
Joan Williams, Claf
Eileen Schott, Claf
Ceri Jackson, RNIB Cymru
Elin Edwards, RNIB Cymru
Sian Biddyr, RNIB Cymru
Ansley Workman, RNIB Cymru
Rebecca Colclough, RNIB Cymru
Paige Griffiths, RNIB Cymru
Gareth Davies, RNIB Cymru
Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion

Jonathan Mudd, Cŵn Tywys Cymru
Sali Davies, Optometreg Cymru
Sian Evans, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tim Banner, Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Tim Palmer, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

**Ymddiheuriadau:**
Mike Hedges, Aelod Cynulliad
Caroline Jones, Aelod Cynulliad
Georgina Webb, Ymchwilydd i Geidwadwyr Cymru
Sharon Beckett, Sight Cymru
Bablin Molik, Sight Cymru
Peter Jones, Cŵn Tywys Cymru
Nik Sheen, Canolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru, Ysgol Optometreg Prifysgol Caerdydd
Pip Ford, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

**1. Croeso a chyflwyniad**
Croesawodd Dr Dai Lloyd bawb i'r cyfarfod.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

**3. Cyflwyniad: Mesurau newydd ym maes gofal llygaid sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**
Rhoddodd Fiona Jenkins, Graham Shortland, Mike Austin a David O'Sullivan gyflwyniad ar fesurau newydd Llywodraeth Cymru ym maes gofal llygaid sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae sleidiau'r cyflwyniad PowerPoint wedi eu hatodi.

**Rhoddodd Fiona Jenkins** drosolwg o Gynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid, a gyhoeddwyd yn 2013, ac o sefydlu'r Grŵp Llywio Gofal Iechyd Llygaid.

Yn 2016, adolygwyd y blaenoriaethau yn y cynllun a chytunwyd ar flaenoriaethau newydd hyd at 2018. Roedd y blaenoriaethau hyn yn eu galluogi i ddarparu gofal ac arweinyddiaeth glinigol yn fwy cyflym. Gwnaed cynnydd sylweddol hyd yn hyn, yn cynnwys:
- Gostyngiad yn y nifer o achosion ardystiedig o nam ar y golwg.
- Ansawdd gwell o ran sgrinio plant
- Sefydlu canolfannau triniaeth offthalmig a diagnostig
- Asesu, monitro a thrin Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig â Henaint yn agosach at gartrefi pobl

- Practisau optometreg sy'n gysylltiedig â rhwydwaith TG y GIG
- Hyfforddi staff
- Adolygu Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru
- Cyflwyno'r Llwybr Cataract

Cytuno ar ddeg cam gweithredu â blaenoriaeth, sy'n cynnwys:
- Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid
- Canolbwyntio ar wasanaethau i blant
- Canolbwyntio ar bobl fregus ac oedrannus
- Gwella Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru
- Adolygu targedau ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg
- Sefydlu atgyfeiriadau optometreg electronig ac opsiynau ar gyfer Cofnod Cleifion Electronig.
- Sefydlu a chyflwyno Cynllun Gofal Offthalmig Wedi'i Gynllunio Cymru
- Cefnogi cynlluniau gweithlu a nodi anghenion o ran hyfforddiant
- Sicrhau bod achosion o nam ar y golwg yn cael eu hardystio.
- Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:

**Rhoddodd Graham Shortland** drosolwg o Fwrdd Gofal Offthalmig Wedi'i Gynllunio, sy'n dod o dan y Cynllun Cyflawni Gofal Llygaid, gan ganolbwyntio ar wella capasiti a mynediad at driniaeth gofal llygaid. Trafododd bum egwyddor Gofal Iechyd Darbodus, sy'n cynnwys: peidio ag achosi niwed, ymyrryd cyn lleied â phosibl ac mewn modd priodol, trefnu'r llwyth gwaith gan ystyried yr egwyddor o wneud dim ond yr hyn y gallwch ei wneud, hyrwyddo tegwch ac ail-fodelu'r berthynas rhwng y defnyddiwr a'r darparwr ar sail cyd-gynhyrchu.

Edrychodd Bwrdd Gofal Offthalmig Wedi'i Gynllunio Cymru ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ar ddata yn ymwneud â gofal llygaid a oedd yn dangos bod oedi hir cyn gwneud apwyntiadau dilynol i gleifion a bod yr oedi hwn yn eu rhoi mewn perygl o niwed ac yn arwain at ganlyniadau clinigol gwael.

O ganlyniad, sefydlodd Grŵp Llywio Iechyd Llygaid Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen amlddisgyblaethol i lunio mesurau newydd ar gyfer gofal llygaid, a sefydlu system ar gyfer apwyntiadau newydd a dilynol yn seiliedig ar risg cleifion o gael niwed anwrthdroadwy i'w golwg.

Datblygwyd y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i fod yn glinigol berthnasol a mabwysiadwyd egwyddorion Gofal

Iechyd Darbodus er mwyn osgoi niwed i'r cleifion. Anfonwyd adroddiad at Ysgrifennydd y Cabinet yn 2017 a derbyniwyd yr argymhellion. Yn dilyn cyfarfod diweddar Llywodraeth Cymru i adolygu cynnydd, ysgrifennodd Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod cefnogaeth glinigol ar draws pob Bwrdd Iechyd i weithredu'r mesurau newydd, a chytunodd pedwar Bwrdd Iechyd i weithredu'r mesurau o fis Ebrill 2018, gyda'r Byrddau Iechyd eraill yn dilyn ym mis Medi 2018.

Bydd y targedau clinigol o dan y mesurau newydd yn berthnasol i gleifion newydd, cleifion presennol ac apwyntiadau dilynol cleifion presennol. Rhoddir "Dyddiad Targed Clâf" newydd i gleifion, yn seiliedig ar eu risg o niwed cyffredinol a niwed anwrthdroadwy i'w golwg.
Caiff cleifion eu blaenoriaethu o dan dri chategori, P1, P2 a P3:

- **P1**: Risg o niwed anwrthdroadwy neu ganlyniad gwael sylweddol os na fydd y claf yn cael ei drin ar y Dyddiad Targed
- **P2**: Risg o niwed gwrthdroadwy neu ganlyniad gwael os na fydd y claf yn cael ei drin ar y Dyddiad Targed
- **P3**: Dim risg o niwed sylweddol

Bydd 95 y cant o'r cleifion blaenoriaeth un yn cael eu gweld erbyn eu dyddiad targed neu ddim mwy na 25 y cant dros hynny. Bydd Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth yn parhau i fod yn uchafswm o ran amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau newydd.

Amlinellodd **Mike Austin** y gallai 10 y cant o gleifion newydd sy'n aros am apwyntiad o dan system gyfredol Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth fod mewn perygl o gael niwed anwrthdroadwy i'w golwg. Fodd bynnag, mae 90 y cant o'r cleifion sy'n dod am apwyntiad dilynol nad oes ganddynt ddyddiadau targed dan arweiniad clinigol o dan y system Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth mewn perygl o gael niwed anwrthdroadwy i'w golwg.

Amlinellodd Mike y gallai cymhwyso'r egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus i'r pedwar prif gyflwr llygad, Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint, Glawcoma, Retinopathi Diabetig a Cataractau wella capasiti'r system. Er enghraifft, gall staff nad ydynt yn staff meddygol fonitro ac adolygu cleifion â Glawcoma 75 y cant o'r amser, a gall hynny wella capasiti'r meddyg ymgynghorol.

Byddai gweithlu amlddisgyblaethol medrus ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin gan aelodau mwyaf perthnasol y tîm. Er enghraifft, byddai cataractau yn bennaf yng nghategori P2 y mesurau blaenoriaethu newydd, ond byddai capasiti yn cael ei wella drwy sicrhau bod nyrsys yn arwain y clinigau cataract fel na fyddai angen i'r meddyg ymgyngorol weld y claf ond am rai munudau.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng blaenoriaeth a brys.

**Amlinellodd David O'Sullivan** gamau gweithredu'r mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r is-grwpiau a grëwyd i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Eglurodd mai Mike Austin yw Cadeirydd Bwrdd Gofal Offthalmig Wedi'i Gynllunio Cymru (WOPCB) a bod hyn yn ymwneud â gwaith wedi'i drefnu. Mae Graham Shortland yn arwain y gwaith penodol ar gyfer datblygu'r mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. O dan y mesurau hyn, mae tair ffrwd waith ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Grŵp Clinigol a gynhelir gan yr Athro James Morgan, Offthalmolegydd Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r grŵp hwn yn rhoi blaenoriaeth i gyflyrau llygaid,
- Grŵp Gweithrediadau sy'n cynnwys offthalmoleg a Rheolwyr Cyfarwyddiaeth y Bwrdd Iechyd sy'n sicrhau bod y mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu gweithredu,
- a Grŵp TG sicrhau bod seilwaith TG priodol yn ei le.

Mae dau Fwrdd Iechyd wedi treialu'r mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn i alluogi'r mesurau i gael eu cyflwyno ar draws Cymru fesul cam. Bydd y broses yn cael ei monitro gan y Bwrdd Llywio Gofal Llygaid Cenedlaethol.

Dywedodd nad oes cydbwysedd yn y system gofal llygaid ar hyn o bryd. Mae angen mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chapasiti ac ni fydd y mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn mynd i'r afael â chapasiti. Eglurodd fod y mesurau hyn yn rhoi blaenoriaeth

glinigol ar gyfer mynediad amserol a theg i ofal, tra bod y gwaith yn parhau i sicrhau bod y system yn cydbwyso o ran capasiti a galw.

Gorffennodd y cyflwyniad drwy egluro rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r system newydd a sut y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol helpu. Eglurodd fod carfan o gleifion y dylid eu trin ar frys a'u bod yn flaenoriaeth o ganlyniad i'w risg o gael niwed anwrthdroadwy i'w golwg. Bydd angen gweld y cleifion hyn ar frys ac o ganlyniad, caiff hyn effaith ar gleifion cyfredol. Er enghraifft, efallai y bydd gan gleifion cataract amseroedd aros hwy o hyd at 30 y cant er mwyn blaenoriaethu cleifion sydd mewn perygl o gael niwed anwrthdroadwy.
Bydd angen gohebiaeth briodol i ddweud wrth gleifion am y mesurau newydd, a rhoddir cefnogaeth i ymarferwyr fel y gallant hwythau, yn eu tro, gefnogi cleifion.

Tynnwyd sylw at ba mor gyflym y gellid ei gyflawni a dywedodd, er nad oedd yn angenrheidiol rhuthro, bod angen i randdeiliaid gefnogi hyn a'i hyrwyddo.

**4. Trafodaeth a chasgliadau**
**Sut y gall y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg helpu? Camau i gytuno arnynt:**
Cafwyd trafodaeth yn dilyn y cyflwyniad gydag aelodau'r grŵp yn gofyn cwestiynau i'r cyflwynwyr. Mae crynodeb o'r rhain isod.

**C:** Dywedodd Joan Williams ei bod hi'n glaf gyda Dirywiad Macwlaidd a'i bod hefyd yn cael profion Glawcoma. Gofynnodd i'r cyflwynwyr sut y byddai'n cael gwybod am y mesurau newydd.
**A:** Atebodd Mike Austin a dywedodd y byddai'n cael ei chyfrif fel P1 ac y byddai hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'i dogfennaeth atgyfeirio ac y byddai pob aelod o staff clinigol sy'n ei thrin yn esbonio hyn iddi hi.

**C:** Gofynnodd John Jenkins pwy fyddai'n dod i mewn i'r categori P3 ac a fyddent fyth yn cael eu gweld.
**A:** Atebodd Graham Shortland y bydd y targed a'r dyddiad adolygu newydd yn seiliedig ar angen clinigol a risg o niwed. O ran cleifion P3 mae'n annhebygol iawn y byddai'r claf yn cael unrhyw niwed. Amlinellodd Graham, hefyd, bod 20 y cant o gleifion P1 yn cael eu rheoli mewn gofal sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**C:** Gofynnodd John Jenkins beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun yn cael retina rydd ar nos Wener a bod angen ei drin ar frys?
**A:** Atebodd Mike Austin y gallai'r claf gael gofal heb ei drefnu neu fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Pe bai angen llawdriniaeth frys ar y claf, mae clinigau yng Nghymru a allai wneud hyn. Byddai claf mewn adran damweiniau ac achosion brys yn cael ei asesu a byddai ei gyflwr/ei chyflwr yn cael ei drafod gyda'r meddyg ymgynghorol ar alwad. Pe bai llawfeddyg retinal ar alwad ac yn gweithio’r noson honno, gallai gael apwyntiad y noson honno. Fel arall, gallai fod yn flaenoriaeth i'w weld cyn gynted ag y bo modd.

**Cyfathrebu â chleifion**
Dywedodd John Jenkins bod angen gofal ynglŷn â sut y dywedir wrth gleifion am eu blaenoriaeth.

Tynnodd Sali Davis sylw at bwysigrwydd cyfathrebu da i gleifion a hefyd rhwng gofal eilaidd ac optometryddion cymunedol. Dywedodd pe na byddai optometryddion yn cael gwybodaeth am gleifion o'r ysbyty, ni fyddent yn gallu esbonio hyn i'r cleifion.

Dywedodd Owen Williams fod cyfathrebu da yn bwysig iawn a bod angen inni sicrhau bod cyfathrebu hygyrch ar waith. Dywedodd nad yw gohebiaeth yn cael ei chyflwyno i gleifion mewn ffordd hygyrch o hyd.

Diolchodd Ceri Jackson i'r cyflwynwyr a dywedodd fod llawer o waith caled wedi'i wneud i ddatblygu'r mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Fodd bynnag, mae cleifion yn dal i gysylltu â RNIB Cymru ynghylch canslo’u hapwyntiadau . Ni ddylid tanbrisio'r pryder a'r poen meddwl hwn i gleifion ac mae cyfathrebu mewn ffordd hygyrch a phriodol yn bwysig iawn, yn enwedig os yw cleifion mewn perygl o golli eu golwg. Mae angen i gleifion gael gwybod am y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**C:** Gofynnodd Owen sut y rhoddir gwybod i gleifion am arwyddion y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt os yw cyflwr eu llygaid yn newid. Er enghraifft, os ydynt yn troi'n P2 o fod yn P3?
**A:** Atebodd Graham Shortland a dywedodd, wrth i'r amser fynd heibio mewn sefyllfaoedd lle nad yw cleifion yn cael eu gweld, yna mae angen iddynt allu dod yn ôl os yw eu golwg yn newid.

**Digwyddiad Uned Gyflenwi**

Fe soniodd y cyflwynwyr fod digwyddiad Uned Gyflawni am y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael ei gynnal ar y 18 Ebrill. Bydd hyn yn cynnwys holl Reolwyr y Byrddau Iechyd.

**Mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth**

Fe soniodd Ceri Jackson fod angen blaenoriaethu'r mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer targedau rhwng atgyfeirio a thriniaeth er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael niwed.

**Capasiti a galw**

Amlinellodd Ceri Jackson yr anghysondeb rhwng capasiti a galw.

Cytunodd Mike Austin fod anghysondeb rhwng capasiti a galw a dywedodd nad pwrpas y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yw "symud y gôl am resymau gwleidyddol, ond sicrhau bod y goliau cywir ar y cae chwarae cywir."

Dywedodd John Jenkins hefyd fod yna broblem fawr o ran capasiti a galw.

Dywedodd Graham Shortland nad oedd y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ymwneud â'r mater capasiti a galw, ond bod y gwaith hwn yn ymwneud â chael y canlyniadau iawn i gleifion.

Dywedodd Fiona Jenkins fod angen inni edrych ar y ffordd rydym yn darparu gofal ac yn gwneud y mwyaf o ofal trwy sicrhau bod cymysgedd o sgiliau ar gael. Dywedodd mai'r rheswm nad oes gennym y gofal sylfaenol sydd ei angen arnom yn y gymuned yw'r diffyg Cofnod Cleifion Electronig (EPR). Dywedodd eu bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth hysbyseg a bod yr achos busnes dros weithredu cofnod cleifion electronig yng Nghymru bron wedi'i gwblhau.

Dywedodd Darren Price ein bod yn gweld camau gweithredu o'r diwedd. Dywedodd bod pedair blynedd wedi mynd heibio ers i RNIB Cymru gyhoeddi’r adroddiad "Cleifion go iawn yn dioddef niwed go iawn" ond dim ond nawr rydym yn gweld camau gweithredu ar waith.

Fodd bynnag, nid yw'r mesurau hyn yn datrys y broblem yn ymwneud â chapasiti a bod galw mawr ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chapasiti. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru, pa mor hyderus oedd ei bod yn creu agenda gynaliadwy. Gofynnodd hefyd i Lywodraeth Cymru egluro sut mae hyn yn mynd rhagddo.

Dywedodd Graham Shortland fod y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gyfle go iawn i ni wella gofal llygaid yng Nghymru.
Dywedodd Ceri Jackson fod y mesurau hyn yn rhai eithaf mentrus a'i bod yn hen bryd atal cleifion rhag colli eu golwg.

Dywedodd Nick Ramsay y byddai hyn yn gwella gyda system TG sy'n cysylltu cofnodion (mewn gofal sylfaenol ac eilaidd).

Dywedodd Fiona Jenkins, petai gennym Gofnod Cleifion Electronig (EPR), y gallai hyn helpu a bod y diffyg hwn yn rhwystro ein cynnydd.

Awgrymodd Olivia Shorrocks wahodd Peter Lewis i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg gan fod ganddo gynllun gweithredu 13 pwynt i fynd i'r afael â chynaliadwyedd.

**Camau i'w cymryd: Gwahodd Peter Lewis i'r cyfarfod nesaf**

**Cofnodi data**
Gofynnodd Darren Price am y ffigurau amseroedd aros ar gyfer gofal llygaid ac a oeddent yn gadarn. Dywedodd Olivia Shorrocks fod Byrddau Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth gofnodi'r rhain.

**Cyfathrebu â chleifion**
Gofynnodd Joan Williams a allai hi deimlo'n hyderus wedi gadael yr ystafell heddiw, wrth wybod y byddai cleifion yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.

Cydnabu Graham Shortland bryder Joan a dywedodd fod angen inni gydweithio i sicrhau ein bod yn gallu rhoi sicrwydd i gleifion.

Dywedodd Fiona Jenkins fod cyfathrebu yn allweddol a bod angen cyfathrebu'n glir ac mewn ffordd hygyrch mewn gwasanaethau ysbyty ac optometreg.

Pwysleisiodd David O'Sullivan hefyd bod angen cyfathrebu'n glir.

Dywedodd Eileen Schott, fel claf, ei bod hi'n cael negeseuon anghyson iawn. Eglurodd ei bod hi'n wreiddiol wedi bod yn glaf yn yr Alban ac wedi symud i Gymru. Yn dilyn hynny, roedd wedi profi llawer o oedi gydag apwyntiadau. Dywedodd os yw'r oedi'n achosi niwed, y dylid mynd i'r afael â hynny a dal rhywun i gyfrif. Dywedodd ei bod yn teimlo y byddai ei chyflwr llygaid wedi gwaethygu pe na bai wedi ymdrin â'r sefyllfa ar ei liwt ei hun. Eglurodd ei bod hi'n wreiddiol wedi cael triniaeth yng Nghaerdydd ond, o ganlyniad i'r oedi, mae bellach yn cael triniaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod hyn yn daith hir ar y bws, ond ei fod yn golygu ei bod hi bellach yn aros pedwar mis yn hytrach nag wyth mis fel o'r blaen.

Ymatebodd Mike Austin, drwy ddweud y bydd 10,000 o gleifion mewn carfan yn aros, ond mae system newydd bellach lle mae cleifion sydd mewn perygl o gael niwed anwrthdroadwy i'w golwg yn cael eu blaenoriaethu.

Dywedodd Eileen Schott fod cyfathrebu'n anghyson a bod angen i hyn newid.

Dywedodd Gareth Davies ei fod yn glaf ac wedi cofrestru'n ddall, a'i fod hefyd yn gweithio i RNIB. Dywedodd ei bod yn bwysig bod gwybodaeth yn hygyrch o ran iaith a bod hyn yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Dywedodd fod angen rhoi gwybodaeth i bobl mewn iaith bob dydd. Dywedodd fod angen i'r gwaith ar y mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fynd rhagddo cyn gynted ā phosib.

Daeth Dai Lloyd â'r cyfarfod i ben a dywedodd ei bod yn bwysig bod gwaith yn cael ei wneud erbyn hyn, ond bod angen gwneud mwy o hyd. Cytunodd Dai Lloyd i ysgrifennu llythyr at Vaughan Gething yn crynhoi'r cyfarfod a'r camau a gytunwyd. Cytunodd Nick Ramsay y byddai'n cefnogi hyn ac y byddai'r llythyr yn cael ei anfon ar y cyd ac ar ran y Grŵp.

**Cam gweithredu: Llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn gofyn am eglurder ar faterion a godwyd yn y cyfarfod hwn.**

Dywedodd Dai Lloyd y byddai'n rhannu gohebiaeth a chofnodion gyda'r grŵp.

Diolchodd Ceri Jackson i'r cyflwynwyr ar ran y grŵp ac am y gwaith caled a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar y mesurau newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**5. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**6. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dywedodd Dai Lloyd y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg yn canolbwyntio ar Gynllunio'r Gweithlu. Byddai'r dyddiadau a'r lleoliad yn cael eu cadarnhau.

Dywedodd Darren Price y byddai hyn yn gyfle i ofyn i Peter Lewis ddychwelyd i'r grŵp, gyda diweddariad ar y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm